Hwyrnos: Y FAGDDU
Dogfen Ymchwil
Galwad Agored am Artistiaid, Creadigwyr, Perfformwyr ac Actifyddion

Mae'r ddogfen ymchwil yma'n cynnwys detholiad o weithiau celf a gwybodaeth a dynnir o Gasgliadau Amgueddfa Cymru ac am artistiaid Artes Mundi 9.

Ei bwriad yw bod yn ysbrydoliaeth i gyflwyniadau ar gyfer gweithiau celf sydd wedi'u comisiynu ac nid fel cyfyngiad ar yr hyn y cewch chi ei gynnig.

Gweithiau Celf Casgliad yr Amgueddfa/Cysylltiad â Hanes Du:

Fanny Eaton
Dynes ddu o Lundain Oes Fictoria a gafodd yrfa fer ond dwys fel model, yn eistedd ar gyfer sawl beintiwr Cyn-Raffaëlaidd. Mae un paentiad o'r fath yn hongian yn orielau Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, *Jephthah,* a grëwyd gan John Everett Millais ym 1867. Yn ôl arweinydd y prosiect, Umulkhayr Mohamed, "I mi mae'r gwaith yma'n ddiddorol oherwydd nad yw stori Fanny Eaton wedi cael yr amser na'r sylw y mae'n ei haeddu hyd yn hyn. Hefyd, yn y paentiad hwn mae dwy fodel fwy tywyll eu croen y mae eu henwau heb eu cofnodi mewn hanes, sy'n gwneud i mi feddwl y gallai hyn fod yn gyfle diddorol iawn i drafod rhagfarn ar sail lliw."

Tacsidermi Anifeiliaid Gwyllt

Mae gan yr Amgueddfa gasgliad enfawr o sbesimenau o dacsidermi anifeiliaid gwyllt yn ei storfa, gan gynnwys nifer sy'n hanu o gyfandir Affrica. Yn ôl Umulkhayr, "Mae'r ffordd rydyn ni'n trin ein hamgylchedd a'r anifeiliaid rydyn ni'n ei rannu â nhw yn dweud llawn cymaint wrthon ni am ein hanes ag y gwna ein holl straeon, diwylliannau a thraddodiadau. Yn hanesyddol, mae llawer o ddiwylliannau ar draws Affrica wedi bod â chysylltiad mwy cynaliadwy â natur ac anifeiliaid nag sydd gynnon ni yng Nghymru ar hyn o bryd."

Y Chwiorydd Davies

Mae perthynas y Chwiorydd Davies fel noddwyr ag Amgueddfa Cymru yn adnabyddus yn sgil rhoi casgliad o gelfyddyd nodedig o'r 20fed ganrif. Bu'r gymynrodd a dderbyniwyd ganddynt gan eu taid David Davies yn fodd iddynt gaffael y gweithiau celf yn y casgliad. Diwydiannwr cyfalafol oedd David Davies a elwodd ar ddiwydiannu Cymru ac felly menter drefedigaethol Prydain. Yn ôl Umulkhayr, "Mae hyn ynghlwm â'r cydblethu rhwng hil a dosbarth mewn ffordd sy'n dweud cymaint am sut mae angen i ni ailedrych ar ein hanes mewn ffordd fwy cynhwysol, drwy ddangos sut mae hunaniaethau Duon yn cydblethu â hunaniaethau eraill, boed ar y cyrion neu ddim."

Vincent van Gogh's Rain – Auvers

national museum cardiff
amgueddfa genedlaethol caerdydd

artesmundi

Artes Mundi 9:

Bydd chwe artist yn dangos gwaith yn Artes Mundi 9; Firelei Báez, Dineo Seshee Bopape, Meiro Koizumi, Beatriz Santiago Muñoz, Prabhakar Pachpute a Carrie Mae Weems. Ceir sawl thema allweddol sy'n ymddangos ar wahanol adegau yn yr arddangosfa, gan gynnwys:

- Cynrychiolaeth, cyfiawnder a chynhwysiant cymdeithasol
- Trawma, iachau a chydnerthedd
- Effaith gwrthdaro a threfedigaethu ar y tir a'r corff

Cliciwch yma am gyflwyniad llawn i'r Artistiaid ar restr fer Artes Mundi 9.